

Cyfleoedd i ddysgu ieithoedd – canllaw i fyfyrwyr a rhieni Nodiadau Athrawon



Mae'r nodiadau hyn i athrawon wedi cael eu hysgrifennu i ategu'r llyfryn **Cyfleoedd i ddysgu ieithoedd – canllaw i fyfyrwyr a rhieni**, sydd wedi cael ei anfon i'ch ysgol/coleg. Maen nhw wedi'u hanelu at staff addysgu a chefnogi sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ôl-l6 ynghylch yr amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ieithoedd sydd ar gael yn y brifysgol. Mae'r nodiadau hyn yn awgrymu amrywiaeth o ffyrdd y gellir defnyddio'r llyfryn a'r wybodaeth o'i fewn, ynghyd â ffynonellau gwybodaeth ac adnoddau eraill.

Y nod

Mae dewis cynyddol amrywiol o gymwysterau a chysiau iaith ar gael i fyfyrwyr mewn amrywiaeth eang o fodolau darparu cwricwlaid ac allgyrsiol. Mae hyn yn effeithio ar fath a lefel yr achrediad sy'n cael ei gyflawni gan ddysgwyr, ac ar eu profiadau o ddysgu ieithoedd. Gellir dweud hefyd bod Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnig dewis cynyddol eang o gyfleoedd i ddysgu ieithoedd ar lefelau gwahanol, na fydd israddedigion posibl yn ymwybodol ohonyn nhw, efallai. Gan hynny, mae'n bwysig darparu gwybodaeth gyfredol am

y dewis llawn o gyfleoedd astudio sydd ar gael i israddedigion posibl, a phawb sy'n eu cynghori.

Mae'r llyfryn yn ceisio cyfleu'r amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd ar gael i ddysgu ieithoedd ar lefel Addysg Uwch yng Nghymru – i fyfyrwyr, eu rhieni a'u cynghorwyr – ynghyd â phwysigrwydd sgiliau iaith. Mae'n cynnwys amlinelliad o'r mathau gwahanol o gyfleoedd, enghreifftiau penodol o ddewisiadau astudio a nifer o astudiaethau achos enghreifftiol.

Sut y dylid ei ddefnyddio?

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae'r llyfryn yn ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-l6 yn bennaf, i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch y brifysgol. Dylai pob myfyriwr droi ato, nid dim ond y rhai sy'n astudio ieithoedd. Gan hynny, rydym yn argymhell fod copi'n cael ei roi ochr yn ochr â phrosbectysau a gwybodaeth arall am brifysgolion. Fe fyddwch hefyd wedi derbyn copi i'w gadw gan staff addysgu, ac mae fersiwn electronig ar gael ar wefan Llwybrau at Ieithoedd Cymru : www.routesintolanguages.ac.uk/cymru

Yn ogystal, mae nifer o ffyrdd eraill y gellir defnyddio'r llyfryn.

- Defnydd gan staff yr adran ieithoedd i annog myfyrwyr ieithoedd i barhau â'u hastudiaethau yn y brifysgol mewn rhyw fodd
- Defnydd gan feysydd pwnc eraill i gyfleu i fyfyrwyr beth yw gwerth sgiliau ieithyddol mewn nifer o yrfaedd, a sut y gellir cynnwys neu gysylltu astudio ieithoedd â graddau mewn pynciau eraill.
- Lledaenu gwybodaeth yn ystod cyngor ar yrfaedd ac mewn digwyddiadau.
- Lledaenu gwybodaeth yn ystod sesiynau a digwyddiadau cynghori prifysgolion.
- Grwpiau tiwtora – dweud wrth eich myfyrwyr am y llyfryn, a'u hannog i'w ddarllen. Cynnal gweithgareddau perthynol sy'n cael eu disgrifio yn y nodiadau hyn.
- Gofyn i fyfyrwyr greu blog neu bodlediad i ddweud wrth eraill am y cyfleoedd sydd ar gael.
- Gwasanaethau'r chweched dosbarth – dweud wrth y myfyrwyr am y llyfryn, a'u hannog i'w ddarllen. Gofyn i grŵp bychan o fyfyrwyr gyflwyno rhywfaint o'r wybodaeth allweddol.
- Cynnwys gwybodaeth yng nghylchlythyrau'r chweched dosbarth, ar y fewnwyd neu ar orsafoedd radio.
- Ategu'r llyfryn gydag adnoddau eraill sydd ar gael:
 - Why Study Languages? Cyflwyniad ac adnoddau ar gael ar www.llas.ac.uk
 - 700 reasons to study languages. Ar gael ar www.llas.ac.uk
 - Mae gwefan CILT yn cynnwys amrywiaeth eang o gwisiau a gemau. www.cilt.org.uk
 - Gellir dod o hyd i gronfa adnoddau Languages Work ar www.languageswork.org.uk
- Trowch yr wybodaeth sydd yn y llyfryn yn gwis – defnyddiwch IWB a thechnoleg pleidleisio i ryngweithio.
- Defnyddiwch yr wybodaeth i hyrwyddo trafodaethau mewn parau, mewn grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Er enghraifft, gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl pam y gallai ieithoedd fod yn ddefnyddiol mewn gyrfaoedd penodol, neu i geisio meddwl am yrfa lle na fydden nhw'n ddefnyddiol.

Gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol

Mae'r canllaw yn rhoi rhestr o wefannau defnyddiol i fyfyrwyr droi atyn nhw os ydyn nhw eisiau rhagor o wybodaeth. Mae nifer o'r rhain hefyd yn ddefnyddiol iawn i athrawon a staff cefnogi, gan fod nifer yn cynnwys adrannau penodol i athrawon ac adnoddau y gellir eu llwytho i lawr.

CILT Cymru

www.ciltcymru.org.uk

Y Ganolfan Bwnc ar gyfer Ieithoedd, Ieithyddiaeth ac Astudiaethau Ardal

www.llas.ac.uk

Languages Work

www.languageswork.org.uk

Direct Gov

www.direct.gov.uk/cy/EducationAndLearning/UniversityAndHigherEducation/index.htm



Am ragor o wybodaeth ynghylch Llwybrau at Ieithoedd a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ewch i www.routesintolanguages.ac.uk/cymru